

Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gall lleoliad y swydd fod yn hyblyg, gyda theithio rheolaidd ledled Cymru yn hanfodol

Lleoliad

Gall lleoliad y swydd fod yn hyblyg, gyda theithio rheolaidd ledled Cymru yn hanfodol

Math o swydd

Swydd Barhaol

Sector

Llywodraeth Ganolog

Cyflog

£70,913 - £78,000

Cleient

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeirnod

Gse45113

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn rhagorol ac yn ysbrydoledig. Mae'n sylfaen i'n hiechyd, ein llesiant a'n ffyniant. Mae'n darparu'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n rhoi egni a deunyddiau craidd. Mae'n hanfodol i'n ffordd o fyw – yn cynnig swyddi, cyfleoedd hamdden ac ymlacio, a lleoliadau deniadol i fyw, gweithio a'u mwynhau. Mae'n rhan o'n diwylliant, ein hanes a'n dyfodol. Mae cyfleoedd anferthol i wella bywydau pawb – ond mae hyn ond yn bosibl os yw'r amgylchedd naturiol yn cael ei reoli'n gynaliadwy a'i gydnabod am y buddion y mae'n eu darparu.

Ni yw'r Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mwyaf, gyda 1,900 o aelodau staff dawnus ac ymroddedig yn gweithio ledled Cymru. Rydym yn cynghori Llywodraeth Cymru, diwydiant, y cyhoedd ehangach a sectorau gwirfoddol ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Mae ein gwaith yn amrywiol ac mae'n bwysig – rydym yn ymateb i 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol bob blwyddyn, yn rheoli 7 y cant o arwynebedd tir Cymru, ac yn diogelu pobl a'r amgylchedd drwy ein gwaith rheoleiddiol sy'n cwmpasu'r diwydiannau morol, coedwigaeth a gwastraff.

Rydym wedi adeiladu sylfaen gref ers cael ein sefydlu; ein nod yn awr yw arwain y sefydliad o fod yn dda i ragorol, a bydd ein Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol newydd yn chwarae rhan allweddol wrth wireddu'r uchelgais honno. Byddwch yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, a bydd eich pedair blaenoriaeth allweddol yn cynnwys: cynllunio a datblygu sefydliadol, datblygu strategol lefel uchel dros y tymor hir, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg effeithiol, a rheoli rhanddeiliaid. Byddwch yn cael effaith ar ystod lawn ein cylch gwaith amrywiol ac yn llunio a dylanwadu ar ein sefydliad a'i waith yng Nghymru, ar hyn o bryd ac am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae'r swydd newydd hon yn mynnu arweinydd sy'n gallu troi polisi'n strategaeth hirdymor a darpariaeth weithredol. Bydd meistrolï sgiliau ein tîm medrus ac angerddol i adeiladu ar y sylfeini cryf sydd eisoes ar waith yn allweddol i lwyddiant. Byddwch yn dod â sgiliau strategol a phrofiad rhagorol, ynghyd â'r gallu i ymgysfarwyddo'n gyflym â'r agweddau sy'n rhan o'r her hon, boed yn rhai sy'n ymwneud â phobl neu rai sy'n ymwneud â chynllun y sefydliad. Bydd cyd-destun y sector cyhoeddus yn gyfarwydd i chi, ond bydd eich gweledigaeth, arloesedd a meddylfryd creadigol yn eich gwneud yn wahanol i'r gweddill.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gatenbysanderson.com/job/GSe45113, neu os hoffech gael sgwrs gyfrinachol ynglŷn â'r rôl, cysylltwch â Michael Dobson ar 020 7426 3968, neu Jemima Dalgliesh ar 07393 013 066.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Amserlen

Dyddiad Cau	Dydd Llun 26ain Tachwedd am 5yh
Cyfarfod Rhestr Hir	Dydd Llun 3ydd Rhagfyr 2018
Cyfweliadau Rhagarweiniol gyda GatenbySanderson	3ydd Rhagfyr – 7fed o Ionawr
Cyfarfod Rhestr Fer	w/d 7fed Ionawr 2019
Cyfweliadau Terfynol	Dydd Llun 21ain Ionawr 2019

Disgrifiad Swydd / Manyleb Person

I weld disgrifiad y swydd / neu'r fanyleb person ar gyfer rôl **Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol**

A wnewch fewngofnodi isod os gwelwch yn dda, neu rhowch ychydig o fanylion fel y gallwn gysylltu â chi yn y dyfodol

A wnewch fewngofnodi isod os gwelwch yn dda, neu rhowch ychydig o fanylion fel y gallwn gysylltu â chi yn y dyfodol

Diolch, Rydym wedi cynnwys y disgrifiad swydd / manyleb person ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill